

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **4 Medi 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-09/17: Presennol**

Cadeirydd Cyng Elizabeth George;

Cyng. Robert Cadwalader, Cyng William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng. Robert T Price; Cyng Wayne T Roberts

Clerc – Dr Catrin Jones.

### **2-09/17 Ymddiheuriadau:**

Cyng Sian Williams; Cyng Eirwyn Williams; Cyng Elizabeth Reagan;

### **3-09/17: Datgan diddordeb**

Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

### **4-09/17 Cadarnhau cofnodion mis Gorffennaf a chyfarfod arbennig mis Awst 2017**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

### **5-09/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)**

- a. Un Llais Cymru - DIWYGIO DEDDFWRIAETH DIOGELU DATA derbyniwyd ebost 30 Awst a oedd yn nodi y byddai seminarau yn cael eu trefnu ynglŷn â'r newidadau a fyddai yn dod i rym Mis Mai 2018.
- b. Cyngor Gwynedd (31 Awst) – nodwyd bod neges wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd yn nodi bod dwy fainc ar Ffordd Porthmadog yn pydru ac hefyd yn gofyn a fyddai modd paentio meinciau o gwmpas y dre. Cytunwyd i rhoi y mater ar agenda mis Hydref.
- c. Llywodraeth Cymru: Clystyru: cefnogaeth ariannu ar gael 2017-18 (ebost 1 Medi 2017). Nodwyd bod arian i fyny at £5000 ar gael ar gyfer prosiect yn ymwneud â chlysturu. Yn anffodus roedd y dyddiad cau ar 13 Hydref ac ni fyddai modd i'r Cyngor weithredu ar hyn onibai bod estyniad amser sylweddol er mwyn rhoi amser i drafod posibiliadau gyda Chynghorau lleol eraill. Y Clerc i sgwennu i esbonio hyn.

### **6-09/17: Gohebiaeth**

- a. Cyngor Gwynedd – Toiledau Cyhoeddus Criccieth (llythyr 14 Gorffennaf 2017)  
Derbyniwyd llythyr yn diolch i'r Cyngor am ymuno â'r Cynllun Partneriaethau ac yn nodi y byddai'r cynllun hwn yn parhau ar gyfer 2018-19 ac y byddai swm y cyfraniadau yn aros yr un faint ag eleni.

**Penderyfyniad.** : i ysgrifennu i gadarnhau cyfrannu at gôst cynnal toiledau yr Esplanade a'r Maes Parcio, ac i ail bwysleisio nad oedd y Cyngor am dalu tuag at gostau toiledau y Marine.

- b. Cyngor Tref Porthmadog – Arriva Cymru (ebost 31/7/2017)

Roedd llythyr wedi ei dderbyn gan Cyngor Tref Porthmadog parthed diffyg defnydd a blaenoriaeth i'r Gymraeg gan Drenau Arriva Cymru: mewn cyhoeddiadau a hysbysebion ar y trenau ac yn eu gorsafoedd. Nid oedd aelodau'r Cyngor Tref Criccieth wedi derbyn unrhyw gwynion gan y cyhoedd, ond roeddynt yn llwyr gefnogol i Gyngor Tref Porthmadog am ei safiad i wasanaeth ddwyieithog.

Hefyd roedd yr ohebiaeth yn cyfeirio am y galw i rhedeg trên cyflym rhwng y Gogledd a'r De unwaith y dydd a bod y mater wedi cael ei gyfeirio at Arriva. Roedd Arriva fodd bynnag yn nodi nad oeddent wedi cael cais am hyn. Roedd Cyngor Criccieth hefyd wedi codi y pwynt yma nifer o weithiau – gyda'r Pwyllgor Rhanbarthol ac hefyd mewn arolwg diweddar o'r gwasanaeth trên.

**Penderfyniad:** i ysgrifennu llythyr i Gyngor Tref Porthmadog i gefnogi y pwyntiau am yr angen am wasanaeth dwyieithog ac hefyd trên cyflym dyddiol rhwng y Gogledd a'r De.

c. Yswiriant y Cyngor 2017-18

Roedd llythyr wedi ei dderbyn gan AON, cwmni yswiriant y Cyngor a oedd yn nodi nad ydynt am gynnig adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac y byddai cwmni arall, sef BHIB Ltd yn cynnig cwôt ar gyfer hyn.

d. Un Llais Cymru: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (ebost 11 Awst 2017)

Derbyniwyd hysbysiad bod Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn a fyddai yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal hon. Roedd y dogfennau priodol ar gael ar wefan y Cyngorau Sir, yn Swyddfeydd y Cyngorau Sir (Caernarfon, Pwllheli, Dolgellau, Llangefni) a llyfrgelloedd cyhoeddus y Sir.

e. Un Llais Cymru: Ymgynghoriad Ffiniau Etholiadol (ebost 4/7/2017)

Roedd gwahoddiad i ymgynghoriad ar ddiwygio etholiadol erbyn 10 Hydref 2017.

**Penderfyniad:** Nid oedd gan y Cyngor sylwadau.

### 7-09/17: Ceisiadau Cynllunio

a. C17/0793/35/LL Tŷ tri llawr; El Fwthyn, Queen's Road, Criccieth, LL52 0EG

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

b. C17/0788/35/LL Dymchwel estyniadau presennol a chodi modurdy: Cambrian House, 8 Cambrian Terrace, Criccieth LL52 0HE. Nodwyd bod y cais wedi dod i law ers cyhoeddi yr agenda ac angen penderfyniad cyn i'r Cyngor gwrdd eto.

**Penderfyniad:** Danfon sylwadau -: gofyn am fwy o fanylion gan ei fod yn adeilad sylweddol:

- A oes amod i sicrhau na fydd modd rhedeg busnes o'r adeilad?
- Paham fod yna ffenest yn nhô yr adeilad? Beth yw bwriad defnydd y gofod yma?

### 8-09/17 Archwiliad Allanol 2016/17

Cylchredwyd gohebiaeth y BDO dyddiedig 17 Awst 2017 yn nodi " *Nid oes materion yn codi y credwn y dylech eu hystried cyn i'r Cyngor gymeradwyo ac ardystio'r Ffurflen Flynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau). Ein bwriad yw cyhoeddi: tystysgrif ac adroddiad diamad ac nid oes unrhyw faterion eraill yr ydym am dynnu sylw'r Cyngor atynt*"

Fodd bynnag roedd angen gwneud cywiriadau a chael y Cyngor i ail-gymeradwyo'r ffurflen flynyddol. Roedd angen cywiro Blwch 3 i £1,824 a Blwch 6 i £15,368. Roedd y Clerc, fel RFO wedi gwneud y

cywiriadau angenrheidiol ac wedi ail-ardystio'r Ffurflen Flynoddol drwy lofnodi a dyddio'r adran ail-gymeradwyo ac ail-ardystio o dan yr adran cymeradwyo ac ardystio.

**Penderfyniad:**

Derbyniwyd manylion tystysgrif y BDO a barn yr archwiliad arfaethedig ei bod am gyhoeddi tystysgrif ac adroddiad diamod. Ail-gymeradwywyd y ffurflen flynyddol, a llofnodwyd a dyddiwyd yr adran briodol gan Gadeirydd y cyfarfod.

**9-09/17 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell.**

Nodwyd bod y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Clerc wedi cael cyfarfod yn ddiweddar gyda Rheolwr Ystadau Cyngor Gwynedd i drafod opsyinau ar gyfer dyfodol yr adeilad. Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen i geisio darganfod disgynyddion ar gyfer yr adeilad. Bwriad Cyngor Gwynedd oedd i werthu yr adeilad os na fyddai disgynyddion yn dod i law ac i gadw arian y gwerthiant mewn ymddiriedolaeth am faint bynnag o flynyddoedd byddai angen. Byddai trefniant yn cael ei wneud i'r Cyngor ymwledd ag Encil y Coed er mwyn gweld os byddai modd i'r Cyngor gyfarfod yno yn y dyfodol. Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi talu y rent blynyddol i Gyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn o Orffennaf 2017 i Orffennaf 2018 a bod hyn yn contract.

**Penderfyniad:** Nid oedd y Cyngor yn hapus gyda'r sefyllfa ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ymchwilio i'r sefyllfa ymhellach gan fod posibilidod bod hawl gan Gyngor Criccieth a thrigolion y dref ar yr adeilad (Cyng Robert Cadwalader i ymchwilio) Hefyd, cytunwyd y dylid edrych ar opsyinau gwahanol ar gyfer lleoliadau i'r Cyngor gwrdd yn y dyfodol (Cyng Tudor Jones a Cyng Roberts Cadwalader).

**10-09/17 Torri gwair yn y dref**

Nodwyd bod JH Williams wedi gwneud y toriad ychwanegol ddiwedd mis Gorffennaf ac hefyd erbyn hyn wedi torri llwybr yn yr Ardd Wyllt a bod canmol ar y gwaith. Fodd bynnag, nid oedd y sefyllfa gyda Chyngor Gwynedd wedi ei ddatrys, ac roedd yna anfodlonrwydd gyda safon y torri gwair a'r gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd. Yn dilyn trafodaethau yn y Cyngor Tref mis Gorffennaf roedd y Clerc wedi sgwennu at yr Uwch Reolwr yn ei wahodd i gyfarfod Mis Medi neu Mis Hydref o'r Cyngor Tref, i gael eglurder ar beth fyddai Cyngor Gwynedd yn fodlon ad-dalu y Cyngor Tref pe byddai'r Cyngor yn cymeryd cyfrifoldeb am y torri gwair ar gyfer ardaloedd priodol yn y dref. Nid oedd wedi derbyn ymateb. Roedd y cyfathrebu i gael y wybodaeth yma wedi mynd ymlaen ers misoedd heb ddadrysiaid. Roedd y Cyngor yn anfodlon gyda'r sefyllfa a'r diffyg ymateb er mwyn medru symud ymlaen gyda'r drafodaeth i sicrhau gwella safon torri gwair yn y dref.

**Penderfyniad:** I ysgrifennu at Prif Swyddog yr Adran Briffyrdd gyda chopi i'r Prif Weithredwr i fynegi consyrn y Cyngor unwaith eto, ac i drafod yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

**11-09/17 Goleuadau Nadolig**

Yng nghyfarfod Mis Gorffennaf penderfynwyd cyfeirio y mater o wariant ar oleuadau Nadolig i'r Grŵp Llywio. Roedd argymhelliad wedi dod gan y Grŵp i'r Cyngor i wario fyny at £10k eleni a oedd dros y gwariant wedi ei glustnodi yn y gyllideb, a hyn er mwyn ymestyn y goleuadau yn y dref. Hefyd roedd y Grŵp Llywio yn argymhell bod y goleuadau yn cael eu troi ymlaen ar 1 Rhagfyr, gan nad oedd Croeso Nadolig tan 7 Rhagfyr. Roedd hyn er mwyn sicrhau y budd gorau i'r dref.

**Penderfyniad:** i dderbyn argymhellion y Grŵp Llywio a rhoi hawl iddynt benderfynnu ar y manylion ynglŷn â'r union wariant ar y goleuadau fyny at £10k a hefyd y dyddiad goleuo.

**12-09/17 Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth – cofnodion cyfarfod 18 Gorffennaf, 15 Awst a 29 Awst**

Nodwyd bod cais grant cronfa'r Loteri wedi ei gyflwyno ac hefyd bod y paratodai ar gyfer y Diwrnod Cymunedol ar 23 Medi yn mynd ymlaen. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

**Penderfyniad:** Derbyniwyd yr adroddiad a'r cofnodion ac argymhellion y Grŵp, gan gynnwys gwneud cais am goeden i blannu yn y dref er mwyn dathlu cyhoeddu y Cynllun Siarter Coed

cenedlaethol. Roedd y Cyngor wedi arwyddo ar gyfer y Siarter. Nodwyd bod y Cyngor yn bryderus am sefyllfa torri coed yng Nghriccieth a chytunwyd y dylid cysylltu gydag arbennigwr Cyngor Gwynedd er mwyn cael trafodaeth am strategaethau posib er mwyn gwella'r sefyllfa, drwy gydweithio rhwng y Cynghorau ac i drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

### **13-09/17: Parcio yng Nghriccieth**

Codwyd y mater o ddiffyg defnydd o'r meysydd parcio yng Nghriccieth – yn enwedig y cam barcio o gwmpas Dylan's ar y Prom.

**Penderfyniad:** Ysgrifennu at Bennaeth Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ofyn am hawl i osod arwydd ar gyfer y parcio, gan nodi y byddai'r Cyngor Tref yn fodlon talu am y gôst o wneud hyn.

### **14-09/17: Llwybr o Benaber i'r parc**

Nodwyd nad oedd y Clerc wedi derbyn rhagor o fanylion gan yr Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd am wneud y gwaith yma.

### **15-09/17 Llwybrau Cyhoeddus**

Nodwyd bod y Clerc wedi derbyn ymateb gan Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd yn rhagweld y bydd y gwaith yn cymryd lle at ddiwedd Gorffennaf dechrau mis Awst ond nad oedd yna amserlen benodol eto.

### **16-09/17: Derbyniadau**

Grant Grŵp Cynefin Hafod y Gêst £1000

Cyngor Gwynedd – ail hanner y praesept £17,000

### **17-07/17: Taliadau**

• Cyllid y Wlad (PAYE)	£126.60 Siec 101080
• Cyflog y Clerc	£506.69 Siec 101081
• JH Williams Torri Gwair	£1753.80 Siec 101082
• Atkin Groundworks Ltd	£439.99 Siec 101083
• Mr Paul Montague	£105.00 Siec 101084
• Costau teithio Clerc – Cynhadledd Un Llais Cymru 5/7/2017	.....£84.60 Siec 101085
• Cynhadledd Un Llais Cymru 30 Medi 2017	....£80.00 Siec 101086

Rhoddwyd ganiatad i'r clerch i dalu'r biliau.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Lun 2 Hydref 2017**.

**\*\*Bydd y rhaglen yma yn cau 23 Medi 2017\*\***